# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

## RHAN 3

CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

## PENNOD 3

ADRODD AC ATEBOLRWYDD

PROSPECTIVE

### 41 Ymchwiliadau caffael

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ymchwilio i'r modd y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus.

(2) Caiff ymchwiliad ymwneud ag ymarfer caffael cyhoeddus penodol a gynhaliwyd gan awdurdod contractio neu â'i weithgarwch caffael cyhoeddus cyffredinol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio ddarparu'r dogfennau hynny neu'r wybodaeth arall honno sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion ymchwiliad o dan yr adran hon, ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Rhaid i awdurdod contractio—

- (a) rhoi cymorth rhesymol i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad;
- (b) cydymffurfio â hysbysiad o dan is-adran (3) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, caiff Gweinidogion Cymru—

- (a) gwneud argymhellion i'r awdurdod contractio;

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 41. (See end of Document for details)*

(b) cyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliad;

(c) gosod copi o unrhyw adroddiad a gyhoeddwyd gerbron y Senedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 41.